## GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A55 (PENTIR PENMAEN-BACH, CONWY) (GWAHARDDIADAU A CHYFYNGIADAU TRAFFIG DROS DRO) 2022

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A55, neu gerllaw iddi, rhwng Penmaen-bach a Morfa Conwy, Conwy.

Effaith y Gorchymyn yw gwneud y canlynol dros dro:

i. cau naill ai cerbytffordd tua'r dwyrain neu gerbytffordd tua'r gorllewin y darn o gefnffordd yr A55 a bennir yn Atodlen 1 i'r Hysbysiad hwn. Bydd gwrthlif yn weithredol yn y lôn allanol o ba un bynnag o'r gerbytffyrdd sy'n aros ar agor i draffig;

ii. gwahardd pob cerbyd rhag goddiweddyd ar y darn o gefnffordd yr A55 a bennir yn Atodlen 1 a rheoli symudiad y traffig drwy'r bylchau yn y llain ganol, fel y'i disgrifir yn Atodlen 2 i'r Hysbysiad hwn tra bo'r gwrthlif yn weithredol;

iii. gosod terfyn cyflymder o 30 mya, 40 mya neu 50 mya ar y darn o gefnffordd yr A55 a bennir yn Atodlen 3 i'r Hysbysiad hwn;

iv. gwahardd pob cerbyd, ac eithrio'r rhai a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys neu ar gyfer y gwaith, rhag mynd ar y darn o gefnffordd yr A55 a bennir ym mharagraff 1 o Atodlen 4 i'r Hysbysiad hwn o 22:00 o'r gloch ar 4 Mawrth hyd at 04:00 o'r gloch ar 5 Mawrth, ac o 22:00 o'r gloch ar 6 Mawrth hyd at 04:00 o'r gloch ar 7 Mawrth 2022;

v. gwahardd pob cerbyd, ac eithrio'r rhai a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys neu ar gyfer y gwaith, rhag mynd ar y darnau o gefnffordd yr A55 a bennir ym mharagraff 2 o Atodlen 4 i'r Hysbysiad hwn. Bydd arwyddion traffig a osodir ymlaen llaw yn dangos y cyfnodau pan fydd y ffordd ar gau a disgwylir mai am gyfnodau byrion y byddant yn para. Nid oes angen unrhyw lwybrau dargyfeiriol;

vi. gwahardd cerbydau sy'n 3.0 metr neu'n lletach neu'n 3.2 metr neu'n lletach rhag mynd ar y darn o gefnffordd yr A55 a bennir yn Atodlen 5 i'r Hysbysiad hwn. Disgrifir y llwybr arall hefyd yn yr Atodlen honno. Dim ond un cyfyngiad lled fydd ar waith ar y tro;

## THE A55 TRUNK ROAD (PENMAENBACH HEADLAND, CONWY) (TEMPORARY TRAFFIC PROHIBITIONS & RESTRICTIONS) ORDER 2022

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to undertake works on or near the A55 trunk road between Penmaenbach and Morfa Conwy, Conwy.

The effect of the Order is to temporarily:

i. close either the eastbound or westbound carriageway of the length of the A55 trunk road specified in Schedule 1 to this Notice. Contraflow will operate in the offside lane of whichever carriageway remains open to traffic

ii. prohibit all vehicles from overtaking on the length of the A55 trunk road specified in Schedule 1 and control the movement of traffic through the gaps in the central reservation as described in Schedule 2 to this Notice whilst contraflow is operating;

iii. impose a 30 mph, 40 mph or 50 mph speed limit on the length of the A55 trunk road specified in Schedule 3 to this Notice;

iv. prohibit all vehicles, other than those being used by the emergency services or for the works, from proceeding on the length of the A55 trunk road specified in paragraph 1 of Schedule 4 to this Notice from 22:00 hours on 4 March to 04:00 hours on 5 March and 22:00 hours on 6 March to 04:00 hours on 7 March 2022;

v. prohibit all vehicles, other than those being used by the emergency services or for the works, from proceeding on the lengths of the A55 trunk road specified in paragraph 2 of Schedule 4 to this Notice. Any such closures will be indicated by advance traffic signs and are only expected to be for short periods of time. No diversionary routes are necessary;

vi. prohibit vehicles with a width of or exceeding 3.0 metres or 3.2 metres from proceeding on the length of the A55 trunk road specified in Schedule 5 to this Notice. The alternative route arrangements are also described in that Schedule. Only one width restriction will be in place at a time;

vii. gwahardd beicwyr a cherddwyr rhag mynd ar y darn o'r llwybr beiciau/llwybr troed sy'n gyfagos i'r darn o'r A55 a bennir yn Atodlen 6 i'r Hysbysiad hwn. Disgrifir y llwybr arall yn yr Atodlen honno.

Daw'r Gorchymyn i rym ar 4 Mawrth 2022. Disgwylir y bydd y gerbytffordd tua'r gorllewin ar gau yn llwyr fel y disgrifir ym mharagraff iv. uchod. Disgwylir y bydd y gwaharddiadau a'r cyfyngiadau dros dro eraill yn weithredol o 04:00 o'r gloch ar 5 Mawrth hyd 22:00 o'r gloch ar 6 Mawrth 2022 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Dim ond yn ystod y cyfnod a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall. Bydd hysbysiad ymlaen llaw am unrhyw newidiadau i'r amseroedd a'r dyddiadau yn cael ei arddangos cyn unrhyw waith a ailamserlennir.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**ATODLEN 1**
**Gwrthlif a dim goddiweddyd**

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 320 o fetrau i'r gorllewin o borth gorllewinol Twnnel Penmaen-bach tua'r Gorllewin hyd at bwynt 353 o fetrau i'r gorllewin o borth gorllewinol Twnnel Conwy.

**ATODLEN 2**
**Terfynau'r bylchau yn y llain ganol**

Y bwlch yn y llain ganol rhwng pwynt 210 o fetrau i'r gorllewin o borth gorllewinol Twnnel Penmaen-bach tua'r Gorllewin a phwynt 320 o fetrau i'r gorllewin o'r porth hwnnw.

vii. prohibit cyclists and pedestrians from proceeding on the length of the cycleway/footpath adjacent to the length of the A55 specified in Schedule 6 to this Notice. The alternative route is described therein.

The Order comes into force on 4 March 2022. The full westbound carriageway closure is expected to be in force as described at paragraph iv. above. The remaining temporary prohibitions and restrictions are expected to operate from 04:00 hours on 5 March until 22:00 hours on 6 March 2022 or until the temporary traffic signs are permanently removed.

Although the Order is only expected to operate during the period specified above it will remain valid for a maximum period of 18 months, as a contingency, should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required. Advance notice of any changes to times and dates will be displayed before any rescheduled work.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/road-orders.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Transport
Welsh Government

**SCHEDULE 1**
**Contraflow and no overtaking**

The length of the trunk road that extends from a point 320 metres west of the western portal of the Penmaenbach Westbound Tunnel to a point 353 metres west of the western portal of Conwy Tunnel.

**SCHEDULE 2**
**Limits of the central reserve gaps**

The gap in the central reservation situated between a point 210 metres west of the western portal of the Penmaenbach Westbound Tunnel and a point 320 metres west of that portal.

Y bwlch yn y llain ganol rhwng pwynt 446 o fetrau i'r gorllewin o borth gorllewinol Twnnel Conwy a phwynt 353 o fetrau i'r gorllewin o'r porth hwnnw.

The gap in the central reservation situated between a point 446 metres west of the western portal of the Conwy Tunnel and a point 353 metres west of that portal.

## ATODLEN 3
## Terfyn cyflymder 30 mya, 40 mya neu 50 mya dros dro

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o ganolbwynt trosbont Traphont y Red Gables (ger Gyffordd 15a) hyd at ganolbwynt trosbont Station Road (ger Cyffordd 20).

## SCHEDULE 3
## Temporary 30 mph, 40 mph or 50 mph speed limit

The length of the trunk road that extends from the centre-point of Red Gables Viaduct over-bridge (near Junction 15a) to the centre-point of Station Road over-bridge (near Junction 20).

## ATODLEN 4
## Gwahardd cerbydau dros dro

Y darn o gerbytffordd tua'r gorllewin y gefnffordd (gan gynnwys pob ffordd ymuno ac ymadael) sy'n ymestyn o ganolbwynt Cyffordd 19 hyd at ganolbwynt Cyffordd 16.

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 320 o fetrau i'r gorllewin o borth gorllewinol Twnnel Penmaen-bach tua'r Gorllewin hyd at bwynt 353 o fetrau i'r gorllewin o borth gorllewinol Twnnel Conwy, gan gynnwys y ffyrdd ymadael ac ymuno tua'r dwyrain a'r ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 17.

## SCHEDULE 4
## Temporary prohibition of vehicles

The length of the westbound carriageway of the trunk road (including all slip roads) that extends from the centre-point of Junction 19 to the centre-point of Junction 16.

The length of the trunk road that extends from a point 320 metres west of the western portal of the Penmaenbach Westbound Tunnel to a point 353 metres west of the western portal of Conwy Tunnel, including the eastbound exit and entry and westbound entry slip roads at Junction 17.

## ATODLEN 5
## Cyfyngiad lled cerbydau

Y darn o'r gefnffordd (gan gynnwys pob ffordd ymuno ac ymadael) sy'n ymestyn o ganolbwynt Cyffordd 16 (Cylchfan Puffin) hyd at ganolbwynt Cyffordd 19 (Cyfnewidfa Glanconwy).

Trefniadau y llwybr arall

Tra bod y gwrthlif yn weithredol, dylai cerbydau sy'n lletach na 3.2 metr aros mewn mannau parcio dynodedig i gael eu hebrwng drwy safle'r gwaith gan Swyddogion Traffig ar adegau a drefnir ymlaen llaw. Fel arall, a dim ond yn ystod oriau golau dydd, y llwybr arall ar gyfer cerbydau tua'r gorllewin sy'n lletach na 3.2 metr fydd mynd ar yr A470 tua'r de o Gyffordd 19 (Glanconwy) i Fetws-y-Coed a'r A5 tua'r gorllewin o Fetws-y-Coed i ymuno â'r A55 wrth Gyffordd 11 (Cyfnewidfa Llys y Gwynt): i'r gwrthwyneb ar gyfer cerbydau tua'r dwyrain.

Pan fo'r gerbytffordd tua'r gorllewin ar gau dros nos, dylai pob cerbyd sy'n lletach na 3.0 metr aros yn y mannau parcio dynodedig i gael eu hebrwng drwy safle'r gwaith gan Swyddogion Traffig

## SCHEDULE 5
## Vehicle width restriction

The length of the trunk road (including all slip roads) that extends from the centre-point of Junction 19 (Glan Conwy Interchange) to the centre-point of Junction 16 (Puffin Roundabout).

Alternative route arrangements

Whilst the contraflow is operating, vehicles over 3.2 metres should wait in designated parking areas to be escorted through the works site by Traffic Officers at pre-arranged times. Alternatively and only during daylight hours, the alternative route for westbound vehicles over 3.2 metres will be via the southbound A470 from Junction 19 (Glan Conwy) to Betws-y-Coed and westbound A5 from Betws-y-Coed to join the A55 at Junction 11 (Llys y Gwynt Interchange): vice versa for eastbound vehicles.

For overnight closures of the westbound carriageway all vehicles over 3.0 metres should wait in designated parking areas to be escorted through the works site by Traffic Officers.

**ATODLEN 6**
**Gwaharddd dros dro feicwyr a cherddwyr**

Y darn o'r llwybr beiciau/llwybr troed sy'n ymestyn o bwynt 787 o fetrau i'r dwyrain o borth dwyreiniol Twnnel Pentir Penmaen-bach tua'r Dwyrain, gan gynnwys y darn o'r llwybr beiciau/llwybr troed sy'n gyfagos i'r ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyffordd 17, hyd at ei bentan â'r A457 ar ddiwedd y ffordd ymadael honno.

Y llwybr arall

Y llwybr arall ar gyfer beicwyr a cherddwyr sy'n teithio tua'r dwyrain yw mynd ar y bont feiciau dros reilffordd Caer i Gaergybi, Beach Road a'r A457 Meirion Drive: i'r gwrthwyneb i feicwyr/cerddwyr sy'n teithio tua'r gorllewin.

**SCHEDULE 6**
**Temporary prohibition of cyclists and pedestrians**

The length of the cycleway/footpath that extends from a point 787 metres east of the eastern portal of the Penmaenbach Eastbound Headland Tunnel, including the length of cycleway/footpath adjacent to the Junction 17 eastbound exit slip road, to its abutment with the A457 at the end of that slip road.

Alternative route

The alternative route for eastbound cyclists and pedestrians is via the cycle bridge over the Chester to Holyhead railway line, Beach Road and A457 Meirion Drive: vice versa for westbound cyclists/pedestrians.